Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

# Adroddiad Gwaddol y Chweched Senedd

Ebrill 2026

www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddIechyd**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddIechyd@senedd.cymru**
X: **@SeneddIechyd**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

# Adroddiad Gwaddol y Chweched Senedd

Ebrill 2026

www.senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/Seneddlechyd**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Peter Fox AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mabon ap Gwynfor AS**
Plaid Cymru



**James Evans AS**
Reform UK



**John Griffiths AS**
Llafur Cymru



**Lesley Griffiths AS**
Llafur Cymru



**Joyce Watson AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**Argymhellion** ........ **5**

**1. Cyflwyniad** ........ **9**

**2. Strategaeth y Pwyllgor ar gyfer y Chweched Senedd** ........ **10**

Ein cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol ........ 10

**3. Craffu ar bolisi** ........ **12**

Gwaith thematig ........ 12

Gwaith sbotolau ........ 12

Gwaith dilynol ........ 13

Adroddiadau monitro amseroedd aros y GIG ........ 13

Gwaith craffu cyffredinol ........ 14

**4. Gwaith craffu deddfwriaethol** ........ **15**

Deddfwriaeth sylfaenol (Biliau) ........ 15

Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ........ 15

Gwaith craffu ar ôl deddfu ........ 16

**5. Craffu ariannol** ........ **18**

**6. Gwrandawiadau cyn penodi** ........ **20**

**7. Gweithgaredd ymgysylltu** ........ **21**

Ymgysylltu â dinasyddion ........ 21

Anghydraddoldebau Iechyd Meddwl ........ 22

Canserau gynaecolegol ........ 22

Gwella mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl ........ 23

Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil ........ 23

Llythrennedd iechyd ........ 24

Arloesi ar gyfer gwella mewn gofal iechyd ........ 24

**8. Blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd ................................ 25**

Gwaith dilynol ........................................................................................................ 25

Meysydd sy'n peri pryder a themâu allweddol ...................................................... 26

Y themâu allweddol ................................................................................................ 26

Materion eraill ........................................................................................................ 26

Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd ........................ 27

**Atodiad 1 : Ymchwiliadau polisi ................................................................ 28**

**Atodiad 2 : Gwaith craffu deddfwriaethol ................................................. 30**

**Atodiad 3 : Gwrandawiadau cyn ac ar ôl penodi ....................................... 31**

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Ar ddechrau'r Seithfed Senedd, dylai ein pwyllgor olynol ystyried datblygu strategaeth i lywio ei flaenoriaethau cynnar a'i raglen waith. Er mwyn llywio'r gwaith hwn, dylai ystyried cynnal gweithgaredd ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd. Dylai hefyd ystyried adolygu ei strategaeth o bryd i'w gilydd yn ystod y Seithfed Senedd. ........ Tudalen 11

**Argymhelliad 2.** Dylai ein pwyllgor olynol anelu at gydbwyso, cyn belled ag y bo modd, wrth ystyried blaenoriaethau newydd, ymateb i faterion amserol ac ymgymryd â gwaith dilynol. Dylai deilwra ei ddull o drafod pob ymchwiliad yn ôl y pwnc penodol ac yn unol â'i amcanion strategol. ........ Tudalen 14

**Argymhelliad 3.** Dylai llywodraeth nesaf Cymru ddilyn y camau angenrheidiol i roi cymaint o rybudd a chymaint o amser â phosibl ar gyfer gwaith craffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol. ........ Tudalen 16

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Pwyllgor Busnes yn y Seithfed Senedd fod yn fwy ymwybodol o'r effaith y mae terfynau amser tynn ar gyfer cyflwyno adroddiadau, a chyfnodau rhybudd byr ar gyfer estyniadau i'r terfynau amser hynny, yn ei chael ar allu Pwyllgorau'r Senedd i ystyried Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol yn fanwl ac mewn modd ystyrlon. ........ Tudalen 16

**Argymhelliad 5.** Dylai ein pwyllgor olynol ystyried cynnwys gwaith craffu ar ôl deddfu fel un o'i flaenoriaethau ar gyfer y Seithfed Senedd. ........ Tudalen 17

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth nesaf Cymru sicrhau bod dogfennau ariannol allweddol fel Fframwaith Cynllunio'r GIG a Llythyr Dyrannu'r Bwrdd Iechyd (neu rai sy'n cyfateb iddynt) ar gael i'n pwyllgor olynol ar yr un pryd â'r dogfennau eraill ar gyfer y gyllideb ddrafft flynyddol. ........ Tudalen 19

**Argymhelliad 7.** Dylai ein pwyllgor olynol ystyried parhau â chynnal gwrandawiadau cyn penodi gyda'r ymgeiswyr a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer penodiadau cyhoeddus perthnasol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. ........ Tudalen 20


**Argymhelliad 8.** Dylai ein pwyllgor olynol barhau i ymgymryd â gweithgaredd ymgysylltu anffurfiol fel rhan o'i waith ymchwilio i ychwanegu at gasglu tystiolaeth ffurfiol. Dylai deilwra ei ddull i adlewyrchu'r ymchwiliad a'r gynulleidfa darged benodol, a dylai barhau i chwilio am ffyrdd newydd ac arloesol o ymgysylltu â

rhanddeiliaid ledled Cymru, gan gynnwys gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid yn eu cymunedau eu hunain. .................................................................. Tudalen 21

**Argymhelliad 9.** Dylai ein pwyllgor olynol ystyried mynd i'r afael â gwaith ymchwil yn y meysydd a nodwyd gennym yn yr adroddiad hwn ac, yn benodol, dylent roi sylw i'r argymhellion yn ein hadroddiadau ar ofalwyr di-dâl a meddygaeth deulu gyda Llywodraeth newydd Cymru fel rhan o'i rhaglen fusnes gynnar. .................................................................................................................................. Tudalen 27


**Argymhelliad 10.** Rydym yn tynnu sylw ein pwyllgor olynol at yr Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd, a'r argymhellion a gyfeiriwyd yn benodol at bwyllgorau'r Senedd, yn enwedig Argymhelliad 31 sy'n galw ar bob pwyllgor i gynnal gwaith craffu rheolaidd ar dystiolaeth cydraddoldeb yn ei ymchwiliadau. .................................................................................................................. Tudalen 27

## Y Pwyllgor yn y Chweched Senedd



**FAINT O GYFARFODYDD PWYLLGOR FFURFIOL A GYNHALIWYD?**

**100**



**FAINT O DYSTION A RODDODD DYSTIOLAETH I'R PWYLLGOR?**

**386**



**FAINT O DDIGWYDDIADAU/ YMWELIADAU Â RHANDDEILIAID A GYNHALIWYD?**

**12**



**FAINT O FILIAU A YSTYRIWYD GAN Y PWYLLGOR?**

**2**

**FAINT O FEMERANDA CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL A YSTYRIWYD GAN Y PWYLLGOR?**

**14**

**FAINT O ADRODDIADAU A GYNHYRCHWYD?**

**49**

**FAINT O YMHOLIADAU A GYNHALIWYD?**

**19**

**FAINT O YMATEBION I YMGYNGHORIADAU A GAFWYD?**

**823**

# 1. Cyflwyniad

**1.** Sefydlwyd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol gan y Senedd i graffu ar bolisi a deddfwriaeth, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif mewn meysydd penodol. Mae'r rhain yn cynnwys iechyd corfforol, iechyd meddwl, iechyd y cyhoedd a llesiant pobl Cymru, gan gynnwys y system gofal cymdeithasol.

**2.** Yn yr adroddiad hwn, rydym yn rhoi trosolwg byr o'r gwaith yr ydym wedi'i wneud drwy gydol y Chweched Senedd. Rydym hefyd yn gwneud argymhellion ac yn awgrymu meysydd blaenoriaeth i'n pwyllgor olynol yn y Seithfed Senedd.

**3.** Mae rhagor o wybodaeth fanwl am ein gwaith yn ystod y Chweched Senedd ar gael ar ein gwefan.

# 2. Strategaeth y Pwyllgor ar gyfer y Chweched Senedd

**4.** Ar ddechrau'r Chweched Senedd, fe wnaethom ni ofyn i bobl a sefydliadau ddweud wrthym beth oedd y materion pwysicaf sy'n effeithio ar iechyd a gofal cymdeithasol yn eu barn hwy. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2021, a daeth 139 o ymatebion i law.

**5.** Fe wnaethom ni ddefnyddio'r ymatebion hyn i ddatblygu strategaeth ar gyfer y Chweched Senedd a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021.

**6.** Mae'r strategaeth yn nodi gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol dros y pum mlynedd rhwng 2021 a 2026 ac yn nodi sut y byddai aelodau'r Pwyllgor yn gweithio gyda'i gilydd. Fe wnaeth nodi themâu trawsbynciol a fyddai'n cael eu hymgorffori ar draws ein gwaith ac fe wnaeth nodi materion sy'n flaenoriaeth.

## Ein cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**7.** Ein gweledigaeth ar gyfer y pum mlynedd rhwng 2021 a 2026 oedd dechrau o'r newydd ar ôl COVID, ac o ganlyniad, byddai:

- Pawb yng Nghymru yn byw bywydau hwy ac iachach.
- System iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gweithio'n fwy effeithiol nag yr oedd cyn y pandemig.
- Pobl yn defnyddio systemau iechyd a gofal gan wybod pa wasanaethau i'w cyrchu i ddiwallu eu hanghenion, a chael profiad mwy cadarnhaol.

**8.** Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, byddai angen:

- Integreiddio gwell rhwng iechyd a gofal cymdeithasol.
- Cynnydd o ran diwygio gofal cymdeithasol, gan gynnwys gwell cynaliadwyedd ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol.
- Lefelau uwch o lythrennedd iechyd a chyfeirio rhwng gwasanaethau.
- Gwell mynediad at wasanaethau iechyd meddwl, yn enwedig i bobl ifanc a phobl sydd â'r anghenion mwyaf dwys.

- Cynnydd o ran mynd i'r afael â phrinder gweithlu ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys datblygu'r gweithlu a gwasanaethau gofal sylfaenol fel bod pobl yn gallu cael mynediad at arbenigedd priodol yn agos at gartref.
- Morâl uwch ar draws y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.
- Gwell hunanreolaeth a hunanofal o gyflyrau cronig.
- Gwell safonau ac arferion mewn perthynas ag iechyd menywod.

**9.** Fe wnaethom ni hefyd nodi'r themâu trawsbynciol a ganlyn, a oedd yn rhedeg trwy ein holl waith:

- Rhoi pobl wrth galon iechyd a gofal cymdeithasol.
- Arloesi er mwyn gwella.
- Y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.
- Anghydraddoldebau ac annhegwch iechyd.
- Ailosod ar ôl y pandemig.

**10.** Fe wnaethom ni gynnal adolygiad interim o'n Strategaeth ym mis Mehefin 2023, gan lunio adroddiad yn cynnwys nifer o gasgliadau ynglŷn â'n ffocws ar gyfer gweddill y Senedd.

**11.** Mae'r strategaeth wedi bod yn ganllaw defnyddiol iawn drwy gydol y Senedd hon, gan ein helpu i lunio rhaglen waith tra'n ein galluogi i fod yn hyblyg ac ymateb i faterion sy'n dod i'r fei. Rydym yn awgrymu bod ein pwyllgor olynol yn ystyried mabwysiadu dull tebyg.

**Argymhelliad 1.** Ar ddechrau'r Seithfed Senedd, dylai ein pwyllgor olynol ystyried datblygu strategaeth i lywio ei flaenoriaethau cynnar a'i raglen waith. Er mwyn llywio'r gwaith hwn, dylai ystyried cynnal gweithgaredd ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd. Dylai hefyd ystyried adolygu ei strategaeth o bryd i'w gilydd yn ystod y Seithfed Senedd.

# 3. Craffu ar bolisi

**12.** Rydym wedi cynnal ystod eang o ymchwiliadau sy'n ymdrin â materion o fewn ein cylch gorchwyl. Mae'r rhain wedi'u hysgogi i raddau helaeth gan y blaenoriaethau a nodwyd yn ein strategaeth ar gyfer y Pwyllgor.

**13.** Mae rhestr o'r ymchwiliadau polisi a gynhaliwyd gennym yn ystod y Senedd hon i'w gweld yn **Atodiad 1**. Mae ein gwaith wedi cynnwys gwaith thematig tymor hwy, gwaith sbotolau a gwaith dilynol. Yn ogystal â'n hymchwiliadau fe wnaethom ni hefyd gynnal sesiynau craffu cyffredinol gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chyrff a swyddi cyhoeddus sy'n perthyn i'n cylch gorchwyl, a chawsom nifer o friffiau technegol ar faterion o ddiddordeb.

## Gwaith thematig

**14.** Mae rhai o'n hymchwiliadau wedi bod yn ddarnau o waith thematig, tymor hwy, sydd wedi rhoi'r cyfle inni gasglu tystiolaeth sylweddol ac archwilio'r materion yn fanwl cyn gwneud argymhellion.

**15.** Mae ein hymchwiliadau thematig wedi cynnwys:

- effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros ar bobl yng Nghymru;
- rhyddhau cleifion o ysbytai ac effaith hynny ar y llif cleifion drwy ysbytai;
- anghydraddoldebau iechyd meddwl;
- canserau gynaecolegol;
- cefnogi pobl sydd â chyflyrau cronig;
- atal iechyd gwael - gordewdra;
- dyfodol meddygaeth deulu yng Nghymru; a
- chymorth i ofalwyr di-dâl.

## Gwaith sbotolau

**16.** Mae rhai o'n hymchwiliadau wedi bod yn ddarnau byrrach, culach eu ffocws, â'r nod o drafod y prif faterion yn gyflym a nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen gan Lywodraeth Cymru i wella polisi neu wasanaeth penodol.

**17.** Mae ein hymchwiliadau sbotolau wedi cynnwys:

- gwasanaethau endosgopi.;
- deintyddiaeth; a
- gwasanaethau offthalmoleg yng Nghymru.

## Gwaith dilynol

**18.** Ym mis Mehefin 2025, yn dilyn pryderon gan randdeiliaid ynghylch y diffyg cynnydd wrth weithredu argymhellion ein hadroddiad yn 2023 Heb lais: Taith menywod drwy ganser gynaecolegol, cytunwyd i gynnal sesiwn graffu ffurfiol gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.

**19.** Fe wnaethom ni ofyn am ddiweddariad ysgrifenedig ar gynnydd gan Lywodraeth Cymru cyn y cyfarfod hwn, a rhannwyd y diweddariad gyda rhanddeiliaid i gael eu barn. Daeth saith ymateb i law.

**20.** Yn dilyn y sesiwn graffu gyda'r Ysgrifennydd Cabinet a'r Gweinidog, lluniodd y Pwyllgor adroddiad dilynol yn cynnwys naw argymhelliad pellach gyda'r nod o wella gwasanaethau canser gynaecolegol i fenywod yng Nghymru. Credwn y dylai ein pwyllgor olynol gadw golwg ar y mater.

## Adroddiadau monitro amseroedd aros y GIG

**21.** Ar 26 Ebrill 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros. Mae cynllun Llywodraeth Cymru yn cynnwys pum uchelgais allweddol ar gyfer lleihau rhestrau aros. Cytunodd y Pwyllgor i fonitro cynnydd tuag at yr uchelgeisiau hyn, ac mae wedi cyhoeddi adroddiadau monitro fesul tymor.

**22.** Yn ogystal â monitro cynnydd cyffredinol o ran rhestrau aros, mae'r adroddiadau hyn wedi nodi ystod o faterion pwysig y mae'r Pwyllgor wedi'u codi wedyn gyda Llywodraeth Cymru, naill ai drwy ohebiaeth, neu drwy ddarnau o waith ymchwil byr, megis yr ymchwiliad i wasanaethau offthalmoleg yng Nghymru.

**23.** Credwn fod yr adroddiadau monitro hyn wedi bod yn werthfawr yn y Senedd hon, a **chredwn y dylai ein pwyllgor olynol ystyried cyhoeddi adroddiadau o'r fath yn y Seithfed Senedd.**

## Gwaith craffu cyffredinol

**24.** Yn ystod y Chweched Senedd, cynhaliwyd nifer o sesiynau craffu cyffredinol gyda'r Ysgrifenyddion Cabinet a'r Gweinidogion yr oedd eu gwaith yn dod o fewn ein cylch gorchwyl.

**25.** Fe wnaethom ni hefyd gynnal nifer o sesiynau craffu gyda deiliaid swyddi a sefydliadau perthnasol, gan gynnwys:

- Iechyd a Gofal Digidol Cymru – roedd hon yn sesiwn graffu ar y cyd â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus er mwyn ymdrin â chynnydd y sefydliad yn ei flwyddyn gyntaf. Roedd 16 o argymhellion yn ein hadroddiad ar y cyd i Lywodraeth Cymru a Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

- Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru – roedd hon yn sesiwn graffu gyffredinol gyda Phrif Weithredwr a Chadeirydd Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Parafeddygaeth. Gwnaeth ein hadroddiad saith argymhelliad, ac wrth ymateb iddynt cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fframwaith perfformiad newydd ar gyfer y gwasanaeth ambiwlans ym mis Mehefin 2025.

- Llais Cymru - hon oedd y sesiwn graffu gyffredinol gyntaf gyda chynrychiolwyr Llais Cymru ers ei sefydlu ym mis Ebrill 2023. Fe wnaethom ni eu holi ar ystod o feysydd gan gynnwys gofal cymdeithasol, materion sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd, barn cleifion ar feddygaeth deulu a chwynion GIG Cymru.

**Argymhelliad 2.** Dylai ein pwyllgor olynol anelu at gydbwyso, cyn belled ag y bo modd, wrth ystyried blaenoriaethau newydd, ymateb i faterion amserol ac ymgymryd â gwaith dilynol. Dylai deilwra ei ddull o drafod pob ymchwiliad yn ôl y pwnc penodol ac yn unol â'i amcanion strategol.

# 4. Gwaith craffu deddfwriaethol

**26.** Yn ogystal â'n rhaglen graffu ariannol a chraffu ar bolisïau, cafodd dau Fil, saith Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a phedwar ar ddeg o Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol atodol eu cyfeirio atom ar gyfer gwaith craffu. Rydym hefyd wedi cynnal dau ymchwiliad craffu ar ôl deddfu.

## Deddfwriaeth sylfaenol (Biliau)

**27.** Ein rôl mewn perthynas â deddfwriaeth sylfaenol yw ystyried egwyddorion cyffredinol unrhyw Filiau a gyfeirir atom (gwaith craffu Cyfnod 1) a gwaredu unrhyw welliannau a gyflwynwyd i'r Biliau hynny yn ystod y cyfnod diwygio cyntaf (gwaith craffu Cyfnod 2). Yn ystod y Senedd hon, cyfeiriwyd dau Fil Llywodraeth Cymru atom i'w trafod:

- Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru); a hefyd
- Y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru).

**28.** Nid oes gan y Pwyllgor unrhyw reolaeth dros amserau cyflwyno Biliau ac er bod y Pwyllgor Busnes yn ymgynghori â ni ynghylch yr amserlen arfaethedig ar gyfer pob Bil yng Nghyfnodau 1 a 2, mae ein dylanwad yn gyfyngedig yn hyn o beth.

**29.** O'r ddau Fil a ystyriwyd gennym, roedd yn rhaid i ni weithio i amserlen gyflym ar gyfer craffu ar Fil Caffael y Gwasanaethau Iechyd (Cymru). Gwnaeth hyn gyfyngu ar ein dull o gynnal gwaith craffu ar y materion technegol a chymhleth oedd yn ymwneud â'r Bil, a rhoi pwysau arnom ni a rhanddeiliaid yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.

## Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

**30.** Yn ystod y Chweched Senedd, cyfeiriwyd saith Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol[1] a deunaw Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol at y

[1] Pan fydd Senedd y DU am ddeddfu drwy ddefnyddio Bil y DU ar faes sydd wedi'i ddatganoli i Senedd Cymru, mae confensiwn yn ei gwneud yn ofynnol iddi gael cydsyniad Senedd Cymru cyn y caiff basio'r ddeddfwriaeth dan sylw. Mae Rheol Sefydlog 29 yn nodi'r broses sydd i'w dilyn, sy'n cynnwys cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol sy'n gofyn am gytundeb y Senedd i'r hyn sydd wedi'i gynnwys ym Mil y DU o fewn meysydd datganoledig.

Pwyllgor i'w trafod. Ceir manylion y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a drafodwyd gan y Pwyllgor yn Atodiad 2.

**31.** Gall yr amseru a'r amserlenni ar gyfer trafod Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ym Mhwyllgorau'r Senedd fod yn gymhleth. Ond yn ystod y Senedd hon, rydym wedi gweld gormod o enghreifftiau o waith craffu'r pwyllgorau ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol (gan gynnwys cyfleoedd pwysig i ymgysylltu â rhanddeiliaid) yn cael eu cyfyngu gan amserlenni tynn ac ychydig o rybudd ar gyfer estyn y dyddiad ar gyfer cyflwyno adroddiadau estynedig. O ran y Bil Iechyd Meddwl, nid oeddem wedi gallu ystyried tri memorandwm a osodwyd ar gyfer y Bil hwnnw oherwydd y terfynau amser byr ar gyfer cyflwyno adroddiadau. Yn yr un modd, roedd amseru'r dyddiadau cau i gyflwyno adroddiad ar gyfer Memorandwm Rhif 4 o'r Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes) a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Hyfforddiant Meddygol (Blaenoriaethu) yn golygu nad oeddem wedi gallu eu trafod.

**32.** Rhaid i lywodraeth nesaf Cymru a'r Pwyllgor Busnes nesaf fod yn fwy ystyriol o hyn yn y Seithfed Senedd, a sicrhau bod cymaint o amser â phosibl ar gael i bwyllgorau gynnal gwaith craffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol cyn iddynt gael eu trafod gan y Senedd.

**Argymhelliad 3.** Dylai llywodraeth nesaf Cymru ddilyn y camau angenrheidiol i roi cymaint o rybudd a chymaint o amser â phosibl ar gyfer gwaith craffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol.

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Pwyllgor Busnes yn y Seithfed Senedd fod yn fwy ymwybodol o'r effaith y mae terfynau amser tynn ar gyfer cyflwyno adroddiadau, a chyfnodau rhybudd byr ar gyfer estyniadau i'r terfynau amser hynny, yn ei chael ar allu Pwyllgorau'r Senedd i ystyried Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol yn fanwl ac mewn modd ystyrlon.

## Gwaith craffu ar ôl deddfu

**33.** Yn ystod y Senedd hon, rydym wedi mynd ir afael â nifer o ddarnau pwysig o waith craffu ar ôl deddfu:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - mewn cyfarfod a oedd yn digwydd ar yr un pryd â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, cynhaliwyd sesiwn dystiolaeth gydag arbenigwyr academaidd i drafod gwerthuso'r Ddeddf, y camau nesaf ac unrhyw feysydd sydd angen sylw pellach. Yn dilyn y cyfarfod,

ysgrifennodd y Pwyllgorau ar y cyd at y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i dynnu sylw at faterion a godwyd yn ystod y sesiwn dystiolaeth.

- Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 - fe wnaethom ni gynnal gwaith craffu ar ôl deddfu ar y Ddeddf i drafod ei gweithrediad a'i heffeithiolrwydd; y camau pellach a allai fod yn angenrheidiol; unrhyw gynnydd wrth ddatblygu'r sail dystiolaeth i estyn y Ddeddf i leoliadau pellach; ac i ba raddau y mae'r Ddeddf wedi'i sicrhau at y dyfodol.
- Isafbris uned ar gyfer alcohol yng Nghymru - fe wnaethom ni gynnal ymchwiliad byr a oedd yn edrych yn benodol ar faint mae'r cyhoedd yn ei ddeall am isafbris uned; ei effaith yng Nghymru; a ddylai barhau; ac os felly, a oedd angen gwneud unrhyw newidiadau er mwyn cynyddu isafbris uned.

**34.** Mae gwaith craffu ar ôl deddfu yn rhan bwysig o'r broses ddeddfu ehangach, yn rhoi'r cyfle i ystyried gweithrediad y ddeddfwriaeth dan sylw (gan gynnwys a oedd yr asesiadau effaith ariannol ac asesiadau effaith eraill a oedd yn cydfynd â'r Bil yn gywir) ac i asesu a yw'r ddeddfwriaeth yn cael yr effaith a fwriadwyd. Rydym yn annog ein pwyllgor olynol i ystyried cynnwys gwaith craffu ar ôl deddfu fel un o'i flaenoriaethau ar gyfer y Seithfed Senedd.

**Argymhelliad 5.** Dylai ein pwyllgor olynol ystyried cynnwys gwaith craffu ar ôl deddfu fel un o'i flaenoriaethau ar gyfer y Seithfed Senedd.

# 5. Craffu ariannol

**35.** Rydym wedi craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant iechyd a gofal cymdeithasol ym mhob blwyddyn o'r Senedd hon. Cafodd ein gwaith craffu ei lywio gan drafod y themâu trawsbynciol a amlinellir yn ein strategaeth ar gyfer y Chweched Senedd, yn ogystal â thystiolaeth a roddwyd gan Lywodraeth Cymru a thystiolaeth a gasglwyd gan y Pwyllgor Cyllid fel rhan o'i waith craffu ei hun ar bob cyllideb ddrafft (gan gynnwys ymgynghori ac ymgysylltu ar feysydd blaenoriaeth posibl).

**36.** Dros y blynyddoedd, rydym wedi ceisio dilyn themâu allweddol a mynd ar drywydd argymhellion blaenorol. Mae'r themâu allweddol a nodwyd gennym yn ystod ein gwaith craffu wedi cynnwys:

- mwy o fuddsoddiad mewn cynlluniau atal;
- cynllunio a pherfformiad ariannol byrddau iechyd;
- goblygiadau cylchoedd ariannu tymor byr ar gyfer cynllunio strategol a chynaliadwyedd;
- yr angen am fuddsoddiad cyfalaf mewn adeiladau, offer a systemau digidol;
- gofal cymdeithasol, gan gynnwys mynediad at ofal seibiant i ofalwyr di-dâl, y cyflog byw gwirioneddol, a'r angen am gydraddoldeb rhwng gweithlu gofal cymdeithasol a gweithlu'r GIG o ran eu telerau ac amodau;
- cyllid ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes.

**37.** Yn ystod y rowndiau cyllido diwethaf, fe wnaethom ni godi pryderon ynghylch gwaith cynllunio a thryloywder y GIG, yn enwedig o ran absenoldeb dogfennau allweddol fel Fframwaith Cynllunio'r GIG a llythyr Dyrannu'r Byrddau Iechyd Lleol, na chawsant eu cyhoeddi cyn sesiwn graffu'r Pwyllgor ar y gyllideb. Fel y gwnaethom ni nodi yn ein hadroddiad ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27,

> *"Mae'r dogfennau hyn yn hollbwysig o ran arwain sut mae byrddau iechyd yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau.*

> *Heb eu gweld, mae'n anodd asesu sut mae'r gyllideb ddrafft yn cyd-fynd â gwir anghenion darparu gwasanaethau. Mae eu habsenoldeb yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn gosod cyllideb ddrafft iechyd heb wybodaeth gyhoeddus ynghylch meysydd â blaenoriaeth am fuddsoddiad; canlyniadau disgwyliedig darparu gwasanaeth; a dyraniad cyllid ar draws byrddau iechyd."*[2]

**38.** Rydym yn tynnu'r pwyntiau hyn at sylw ein pwyllgor olynol a Llywodraeth newydd Cymru, ac yn gofyn bod y dogfennau pwysig hyn ar gael i'n pwyllgor olynol ar yr un pryd â'r dogfennau eraill ar gyfer y gyllideb ddrafft, neu mor agos at yr amser hwn ag sy'n rhesymol bosibl, er mwyn caniatáu iddynt gael eu hystyried yn llawn.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth nesaf Cymru sicrhau bod dogfennau ariannol allweddol fel Fframwaith Cynllunio'r GIG a Llythyr Dyrannu'r Bwrdd Iechyd (neu rai sy'n cyfateb iddynt) ar gael i'n pwyllgor olynol ar yr un pryd â'r dogfennau eraill ar gyfer y gyllideb ddrafft flynyddol.

[2] Adroddiad ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Rhagfyr 2025

# 6. Gwrandawiadau cyn penodi

**39.** Cytunodd Gweinidogion Cymru a'r Senedd i gyflwyno gwaith craffu cyn penodi gan bwyllgorau'r Senedd ar gyfer rhai penodiadau cyhoeddus penodol sydd o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd, neu benodiadau a fydd yn cael effaith sylweddol ar y cyhoedd. Y nod yw gwella ymhellach y gwaith craffu sy'n cael ei wneud ar y broses o wneud penodiadau cyhoeddus a thryloywder y broses honno.

**40.** Yn gyffredinol, mae gwaith craffu cyn penodi yn digwydd ar ffurf gwrandawiad cyhoeddus cyn penodi gyda'r ymgeisydd a ffefrir. Ar gyfer penodiadau i'r rolau hyn y cytunwyd arnynt, y pwyllgor perthnasol sy'n penderfynu pa un a yw'n dymuno cynnal gwrandawiad cyn penodi ai peidio.

**41.** Yn ystod y Chweched Senedd, rydym wedi cynnal 11 gwrandawiad cyn penodi. Mae rhestr lawn i'w gweld yn Atodiad 3.

**42.** Yn ogystal, ym mis Tachwedd 2021, cynhaliwyd gwrandawiad ar ôl penodi yn dilyn penderfyniad y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd i benodi Cadeirydd dros dro i Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morganwg. Er ein bod yn cydnabod nad oedd gennym rôl ffurfiol wrth benodi'r Cadeirydd dros dro, roeddem yn teimlo ei bod yn bwysig, o ystyried arwyddocâd y rôl, i ni gael cyfle i drafod ei flaenoriaethau ar gyfer y rôl a sut yr oedd yn bwriadu arwain y bwrdd iechyd yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

**43.** Credwn fod y gwrandawiadau cyn penodi hyn yn rhan werthfawr o'r broses gyffredinol ar gyfer penodiadau cyhoeddus, ac rydym yn annog ein pwyllgor olynol i barhau â'r arfer hwn.

**Argymhelliad 7.** Dylai ein pwyllgor olynol ystyried parhau â chynnal gwrandawiadau cyn penodi gyda'r ymgeiswyr a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer penodiadau cyhoeddus perthnasol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

# 7. Gweithgaredd ymgysylltu

**45.** Yn unol â'n hymrwymiad i roi pobl wrth wraidd iechyd a gofal cymdeithasol, rydym wedi ceisio clywed yn uniongyrchol gan y bobl yr effeithir arnynt gan bolisïau neu benderfyniadau. Mae hyn wedi cynnwys grwpiau ffocws, digwyddiadau bord gron gyda rhanddeiliaid, recordiadau fideo, cyfweliadau wyneb yn wyneb ac ymweliadau â Phwyllgorau.

**46.** Mae'r gweithgaredd ymgysylltu hwn wedi rhoi mynediad amhrisiadwy i brofiadau bywyd y cyfranogwyr, gan ein helpu i ddeall yr heriau y maent yn eu hwynebu a'r pethau sy'n bwysig iddynt. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r holl unigolion hynny a roddodd o'u hamser i siarad â ni yn ystod y Senedd hon.

**Argymhelliad 8.** Dylai ein pwyllgor olynol barhau i ymgymryd â gweithgaredd ymgysylltu anffurfiol fel rhan o'i waith ymchwilio i ychwanegu at gasglu tystiolaeth ffurfiol. Dylai deilwra ei ddull i adlewyrchu'r ymchwiliad a'r gynulleidfa darged benodol, a dylai barhau i chwilio am ffyrdd newydd ac arloesol o ymgysylltu â rhanddeiliaid ledled Cymru, gan gynnwys gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid yn eu cymunedau eu hunain.

## Ymgysylltu â dinasyddion

**47.** Mae ymgysylltu â dinasyddion wedi cynorthwyo gwaith y Pwyllgor drwy gydol y Chweched Senedd. Casglodd y Pwyllgor dystiolaeth profiad bywyd ar draws sawl ymchwiliad, trwy astudiaethau achos, grwpiau ffocws, grwpiau cynghori a chyfweliadau. Fe wnaeth y dull hwn sicrhau bod profiadau bywyd pobl yn llywio'r gwaith o graffu ar bolisi iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn uniongyrchol.

**48.** Comisiynodd y Pwyllgor waith ymgysylltu â dinasyddion ar gyfer yr wyth ymchwiliad a ganlyn:

- Effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros ar bobl sy'n aros am ddiagnosis neu driniaeth
- Anghydraddoldebau Iechyd Meddwl
- Deintyddiaeth
- Canserau gynaecolegol
- Cefnogi pobl sydd â chyflyrau cronig

- Atal iechyd gwael - gordewdra
- Dyfodol meddygaeth deulu yng Nghymru
- Gwella mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl

**49.** Roedd meysydd allweddol y gwaith hwn yn cynnwys anghydraddoldebau iechyd meddwl a chanserau gynaecolegol.

### Anghydraddoldebau Iechyd Meddwl

**50.** Dechreuodd ymchwiliad y Pwyllgor i Anghydraddoldebau Iechyd Meddwl gyda chyfres o grwpiau ffocws i ddeall y profiad bywyd, ac yna gyda grŵp cynghori a helpodd i lywio gwaith y Pwyllgor ar hyd cerrig milltir allweddol yr ymchwiliad. Mae’r gweithgareddau hyn yn nodi lleisiau a mewnbwn pobl â phrofiad bywyd a’r rhai sy’n wynebu rhwystrau sy’n gysylltiedig â statws economaidd-gymdeithasol, cefndir cymunedol, a mynediad at wasanaethau.

**51.** Chwaraeodd aelodau’r grŵp cynghori ran allweddol wrth lunio gwaith y Pwyllgor. Dylanwadodd eu mewnwelediadau ar argymhellion y Pwyllgor ac ymateb Llywodraeth Cymru. Yn ystod y ddadl yn y cyfarfod llawn, darllenwyd eu cyfraniadau yn uchel, gan atgyfnerthu pwysigrwydd profiadau bywyd wrth lunio polisïau. Yn dilyn hyn, cyfarfu Gweinidog Llywodraeth Cymru â’r grŵp yn breifat, gan roi cyfle iddynt gyfrannu’n uniongyrchol i waith y Llywodraeth ar wella polisïau iechyd meddwl.

### Canserau gynaecolegol

**52.** Gan gydnabod sensitifrwydd y trafodaethau hyn, cynhaliodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion gyfweliadau wyneb yn wyneb, un-i-un gyda chyfranogwyr. Roedd tystiolaeth cleifion yn ganolog i’r ymchwiliad, gan dynnu sylw at oedi wrth wneud diagnosis a heriau o ran cyfathrebu.

**53.** Cafodd y tystiolaethau uniongyrchol a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad effaith sylweddol ar adroddiad terfynol y Pwyllgor, gyda phrofiadau menywod yn cael eu cyfeirio a’u dyfynnu drwy gydol yr adroddiad.

**54.** Ymatebodd Llywodraeth Cymru i’r adroddiad, gan dderbyn 18 o argymhellion, a derbyn dau argymhelliad arall mewn egwyddor a phedwar argymhelliad yn rhannol.

**55.** Cyfeiriwyd at y menywod a gymerodd ran yn y fideos ac fe'u dyfynnwyd gan yr Aelodau yn ystod y ddadl. Yn ei gyflwyniad i'r ddadl, dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor:

> *"Speaking personally, I've been a Member for 13 years and sat on several different committees and been involved in dozens of inquiries, but I would say that the evidence that I heard through the brave women who spoke to us was the most powerful and emotional evidence that I have come across in my 13 years as being a Member here."*

**56.** Cafodd y gwaith a wnaed drwy'r gwaith ymgysylltu hwn gydnabyddiaeth eang ac fe'i enwebwyd ar gyfer Gwobrau Canser Moondance 2024 yn y categori Ymwneud a Chyfranogi gan Gleifion a'r Cyhoedd. Mae'r wobr hon yn cydnabod prosiectau sydd wedi dangos cyfranogiad ystyrlon gan y cyhoedd a chleifion wrth lunio gwasanaethau canser a dylanwadu ar welliannau ar hyd y llwybr gofal canser.

### Gwella mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl

**57.** Gan ddefnyddio'r gwaith a gwblhawyd yn y Bumed Senedd, canolbwyntiodd y Pwyllgor ar wella mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl. Roedd y dull ymgysylltu yn gofyn am gyfweliadau manwl â gofalwyr di-dâl o bob cwr o Gymru. Yn ogystal, roedd grwpiau ffocws yn anelu at atgyfnerthu safbwyntiau unigol ac archwilio atebion posibl. Dangosodd y gwaith ymgysylltu nad oedd llawer o ofalwyr di-dâl yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael, a'u bod yn cael trafferth cael mynediad at Asesiadau Gofalwyr a'u bod yn wynebu diffyg gofal seibiant neu ofal anaddas. Hefyd, gwnaeth y cyfranogwyr nodi heriau wrth lywio prosesau cymhleth ac fe wnaethon nhw ddweud y byddai gwybodaeth gliriach a haws ei deall yn eu helpu i gael mynediad at gymorth. Ymatebodd y Pwyllgor drwy gyhoeddi adroddiad ar ganfyddiadau ar ffurf llawn ac ar ffurf hawdd ei ddeall. Cyhoeddwyd adroddiad terfynol ar ddiwedd y Senedd hon.

## Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil

**58.** Fe wnaethom ni agor dau Faes Diddordeb Ymchwil ar y cyd â Thîm Cyfnewid Gwybodaeth y Senedd[3]; un ar gyfer llythrennedd iechyd, a'r llall ar gyfer arloesi ar

[3] Mae Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil yn gyfle i academyddion, ymchwilwyr ac arbenigwyr rannu eu hymchwil a'u harbenigedd ar bwnc penodol gyda'r Senedd.

gyfer gwella. Cafodd y ddau ohonynt eu nodi yn ein Strategaeth ar gyfer y Chweched Senedd.

## Llythrennedd iechyd

**59.** Mae llythrennedd iechyd yn ymwneud â gallu unigolyn i ddod o hyd i wybodaeth iechyd, ei deall a gweithredu arni, i wybod pa wasanaethau iechyd i'w defnyddio, pryd i'w defnyddio, ac i fod yn bartneriaid gweithredol yn eu gofal. Dyma hefyd sut mae sefydliadau perthnasol yn diwallu'r anghenion hynny, ac yn galluogi unigolion i gael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau iechyd, i'w deall a'u defnyddio.

**60.** Fe wnaethom ni gyhoeddi ein Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil ym mis Awst 2022 ac wedi hynny gofynnwyd i Dr Emily Marchant o Brifysgol Abertawe, gyda chefnogaeth yr Athro Tom Crick, lunio darn o waith yn y maes hwn.

**61.** Cynhyrchodd Dr Marchant ddau adroddiad i'r Pwyllgor:

- Iechyd, Addysg a Ffyniant i Bawb: Profi Llythrennedd Iechyd yng Nghymru, Rhagfyr 2023; a
- School-based health literacy for children and young people in Wales (Saesneg yn unig), Ebrill 2023.

**62.** Cafodd y ddau adroddiad eu trafod gan y Pwyllgor, a helpodd y wybodaeth ynddynt i lunio ein hymchwiliadau yn y dyfodol.

## Arloesi ar gyfer gwella mewn gofal iechyd

**63.** Ym mis Ebrill 2024, fe wnaethom ni ddechrau ail Faes o Ddiddordeb Ymchwil, i helpu i ddeall yn well sut y gallai'r GIG ffrwyno pŵer technolegau newydd i wella diagnosis cleifion a thriniaeth a gofal.

**64.** Ym mis Hydref 2024, fe wnaethom ni gynnal digwyddiad i randdeiliaid a ddaeth ag ymchwilwyr iechyd perthnasol ynghyd i roi cyflwyniadau a chymryd rhan mewn sesiynau holi ac ateb ar bynciau yn cynnwys defnyddio deallusrwydd artiffisial ac arloesedd mewn gofal iechyd. Fe wnaethom ni hefyd gynnal marchnad ymchwil, a oedd yn rhoi cyfle i bobl ddangos ac arddangos y technolegau diweddaraf i'w cyfoedion ac Aelodau o'r Senedd.

# 8. Blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd

**65.** Rydym yn cydnabod y bydd ein pwyllgor olynol yn pennu ei raglen waith ei hun ar gyfer y Seithfed Senedd. Fodd bynnag, gofynnwn i'w aelodau ystyried y materion a ganlyn, yn ogystal ag unrhyw faterion eraill a godir gan randdeiliaid neu Aelodau fel rhan o'i broses cynllunio strategol.

## Gwaith dilynol

**66.** Drwy gydol y Chweched Senedd, rydym wedi ymgymryd â gwaith ar faterion pwysig ac amserol, ac wedi cynhyrchu adroddiadau manwl a wnaeth argymhellion adeiladol ac ystyriol.

**67.** Rydym yn annog ein pwyllgor olynol yn arbennig i ystyried mynd i'r afael â gwaith dilynol yn y meysydd a restrir isod fel mater o flaenoriaeth yn gynnar yn ei raglen fusnes:

- Cymorth i ofalwyr di-dâl – i ofyn am ymateb gan Lywodraeth newydd Cymru i'n hadroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2026, ac i ddilyn argymhellion yr adroddiad hwnnw yn ystod y Seithfed Senedd;
- Meddygaeth deulu – i ofyn am ymateb gan Lywodraeth newydd Cymru i'n hadroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2026, ac i roi sylw i argymhellion yr adroddiad hwnnw yn ystod y Seithfed Senedd.

**68.** Yn ogystal, rydym yn annog ein pwyllgor olynol i ystyried mynd i'r afael â gwaith dilynol ar yr amser cywir mewn perthynas â'r meysydd a ganlyn:

- Gwasanaethau offthalmoleg – i barhau â'r gwaith a ddechreuwyd gennym o ran gwasanaethau gofal llygaid eilaidd ac, yn benodol, i ddilyn yr argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad;
- Canserau gynaecolegol, yn enwedig yr argymhellion yn ein hadroddiad dilynol;
- Gofal cymdeithasol, yn enwedig gwaith ar y Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol a'r cyflog byw gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol.

## Meysydd sy'n peri pryder a themâu allweddol

**69.** Drwy gydol ein gwaith ymchwil, daeth nifer o feysydd pryder allweddol i'r fei dro ar ôl tro mewn tystiolaeth yr ydym am annog ein pwyllgor olynol i'w hystyried, sef:

- recriwtio a chadw staff y **gweithlu** iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys cynllunio ar gyfer y dyfodol;
- argaeledd a chadernid **data** ar gyfer y rhan fwyaf o agweddau ar iechyd a gofal cymdeithasol;
- yr effaith gyfyngol y mae diffyg cynnydd wrth weithredu'r **agenda trawsnewid digidol** wedi'i chael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

### Y themâu allweddol

**70.** Mae **atal** wedi bod yn thema allweddol drwy gydol ein gwaith o ran ymchwiliadau, ac rydym wedi clywed llawer o sôn am bwysigrwydd symud o system gofal iechyd sy'n canolbwyntio ar drin salwch i un sy'n canolbwyntio ar wella canlyniadau iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau i bobl a chymunedau yng Nghymru.

**71.** Thema allweddol arall oedd symud tuag at **gynnig gofal yn nes at adref**. Cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru a GIG Cymru yw'r dull gweithredu Cymunedol o'r Cychwyn, sydd â'r nod o wella hyblygrwydd a mynediad (a bod yn fwy cyfleus) i gleifion, lleihau'r angen am fynd i'r ysbyty a chaniatáu rheoli salwch cronig hirdymor yn well.

**72.** Y thema olaf yw pwysigrwydd y gwaith o **leihau anghydraddoldebau iechyd** a'r camau gweithredu a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â hyn yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol.

**73.** Bydd angen ymrwymiad a ffocws cryf gan Lywodraeth newydd Cymru, yn ogystal â'i phartneriaid iechyd a gofal, ar gyfer y tri agenda hyn, ac mae pob un yn feysydd y bydd ein Pwyllgor olynol yn dymuno cadw llygad barcud arnynt.

## Materion eraill

**74.** Yn olaf, hoffem dynnu sylw ein pwyllgor olynol at ddau fater arall sydd wedi dod i'n sylw fel rhan o'n gwaith gwaddol, a gofyn iddynt ystyried cynnal ymchwiliadau i'r ddau fater ar yr amser cywir.

**75.** Y cyntaf, yw cais gan y Pwyllgor Deisebau i'n pwyllgor olynol fynd i'r afael ag adolygiad ar ôl 12 mis o gyflwyno proses uwchgyfeirio 'Call4Concern' y GIG ar gyfer cleifion a theuluoedd[4] (bwriad y dull hwn yw cyfateb i egwyddorion Martha's Rule yn GIG Lloegr). Yr ail, yw cais ar y cyd gan BMA Cymru a Choleg Nyrsio Brenhinol Cymru i'n pwyllgor olynol gynnal ymchwiliad i ofal mewn coridorau.

**76.** Yn fwy cyffredinol, dymunwn ofyn i'n pwyllgor olynol ystyried sut y mae gweithio gyda Phwyllgor Deisebau y Seithfed Senedd i sicrhau bod y materion pwysig iawn a godwyd gan ddeisebwyr yn y fforwm hwnnw yn gallu cael eu hystyried gan y pwyllgor nesaf sydd â chyfrifoldeb dros iechyd a gofal cymdeithasol.

**Argymhelliad 9.** Dylai ein pwyllgor olynol ystyried mynd i'r afael â gwaith ymchwil yn y meysydd a nodwyd gennym yn yr adroddiad hwn ac, yn benodol, dylent roi sylw i'r argymhellion yn ein hadroddiadau ar ofalwyr di-dâl a meddygaeth deulu gyda Llywodraeth newydd Cymru fel rhan o'i rhaglen fusnes gynnar.

## Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd

**77.** Ar ddechrau mis Mawrth 2026, cyhoeddwyd yr Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd, 'Senedd i Bawb'. Gan ddefnyddio tystiolaeth a dadansoddiad o ddiwylliant, rheolau a systemau'r Senedd mae'n gwneud argymhellion i gryfhau rôl y Senedd fel sefydliad democrataidd cwbl gynrychioliadol a chynhwysol. Mae nifer o'r argymhellion hynny wedi'u cyfeirio at bwyllgorau yn y Senedd nesaf, ac rydym am fanteisio ar y cyfle hwn i dynnu sylw at y rheini.

**Argymhelliad 10.** Rydym yn tynnu sylw ein pwyllgor olynol at yr Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd, a'r argymhellion a gyfeiriwyd yn benodol at bwyllgorau'r Senedd, yn enwedig Argymhelliad 31 sy'n galw ar bob pwyllgor i gynnal gwaith craffu rheolaidd ar dystiolaeth cydraddoldeb yn ei ymchwiliadau.

[4] Deiseb P-06-1570

# Atodiad 1: Ymchwiliadau polisi

Mae'r tabl isod yn rhestru'r ymchwiliadau polisi a gynhaliwyd gennym yn y Chweched Senedd. Mae rhagor o wybodaeth am bob ymchwiliad ar gael ar ein gwefan.

| Ymchwiliad | Dyddiad Cwblhau |
|---|---|
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd | Rhagfyr 2021 |
| Craffu ar Gynllun y Gaeaf ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2021 i 2022 Llywodraeth Cymru | Mai 2022 |
| Effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros ar bobl yng Nghymru sy'n aros am ddiagnosis neu driniaeth | Medi 2022 |
| Rhyddhau cleifion o ysbytai ac effaith hynny ar y llif cleifion drwy ysbytai | Hydref 2022 |
| Gwasanaethau endosgopi: ymchwiliad dilynol | Ebrill 2023 |
| Anghydraddoldebau iechyd meddwl | Mai 2023 |
| Deintyddiaeth | Mehefin 2023 |
| Craffu ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru | Awst 2023 |
| Gwerthuso Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | Mai 2023 |
| Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016: craffu ar ôl deddfu | Ebrill 2024 |
| Canserau gynaecolegol | Mai 2024 |
| Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru - Craffu Cyffredinol | Awst 2024 |
| Cefnogi pobl sydd â chyflyrau cronig | Ebrill 2025 |
| Isafbris uned am alcohol yng Nghymru | Hydref 2025 |
| Atal iechyd gwael - gordewdra | Tachwedd 2025 |
| Gwasanaethau offthalmoleg | Mehefin 2025 |
| Canserau gynaecolegol: Adroddiad dilynol | Ionawr 2026 |
| Dyfodol meddygaeth deulu yng Nghymru | Mawrth 2026 |
| Gwella mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl | Ebrill 2026 |

| **Themâu craffu parhaus** | **Dyddiad Cwblhau** |
|---|---|
| Arloesi ar gyfer gwella mewn gofal iechyd | Mawrth 2026 |
| Adroddiadau Monitro Amseroedd Aros y GIG | Mawrth 2026 |
| Llythrennedd iechyd | Mawrth 2026 |
| Gwaith craffu cyffredinol ar waith Gweinidogion sy’n gyfrifol am iechyd a gofal cymdeithasol | Mawrth 2026 |
| Effaith pandemig COVID-19, a’i reolaeth, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru - y Chweched Senedd | Mawrth 2026 |
| Y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol | Mawrth 2026 |
| Iechyd menywod a merched | Mawrth 2026 |
| Fframweithiau Cyffredin - y Chweched Senedd | Mawrth 2026 |
| Gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol | Mawrth 2026 |
| Gwaith dilynol ar argymhellion Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd | Mawrth 2026 |

# Atodiad 2: Gwaith craffu deddfwriaethol

Mae rhestr o'r Biliau y gwnaethom ni graffu arnynt yn ystod y Chweched Senedd yn y tabl isod. Mae rhagor o wybodaeth am bob Bil ar gael ar ein gwefan.

| Biliau | Dyddiad Cwblhau |
|---|---|
| Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd | Ebrill 2023 |
| Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) | Mawrth 2025 |

Mae'r tabl isod yn rhestru'r Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a'r Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol a gawsom i graffu arnynt yn ystod y Chweched Senedd.

| Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|
| Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau | Chwefror 2022 |
| Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Iechyd a Gofal | Ebrill 2022 |
| Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Tybaco a Fêps (2024-2025) | Mehefin 2025 |
| Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Iechyd Meddwl | Mehefin 2025 |
| Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Hawliau Cyflogaeth | Awst 2025 |
| Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes) | Chwefror 2026 |
| Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Hyfforddiant Meddygol (Blaenoriaethu) | Chwefror 2026 |

# Atodiad 3: Gwrandawiadau cyn ac ar ôl penodi

| Gwrandawiadau cyn ac ar ôl penodi | Dyddiad cwblhau |
|---|---|
| Gwrandawiad cyn penodi ar gyfer Cadeirydd dros dro Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | Tachwedd 2021 |
| Gwrandawiad cyn penodi ar gyfer Cadeirydd Corff Llais y Dinesydd | Mawrth 2022 |
| Gwrandawiad cyn penodi ar gyfer Cadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | Awst 2022 |
| Gwrandawiad cyn penodi ar gyfer Cadeirydd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | Medi 2022 |
| Gwrandawiad cyn penodi ar gyfer Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | Mawrth 2023 |
| Gwrandawiad cyn penodi ar gyfer Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Ionawr 2026 |
| Gwrandawiad cyn penodi ar gyfer rôl Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | Ebrill 2024 |
| Gwrandawiad cyn penodi ar gyfer rôl Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Ebrill 2024 |
| Gwrandawiad cyn penodi ar gyfer rôl Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Gorffennaf 2025 |
| Gwrandawiad cyn penodi ar gyfer rôl Cadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre | Gorffennaf 2025 |
| Gwrandawiad cyn penodi ar gyfer rôl Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | Chwefror 2026 |
| Gwrandawiad cyn penodi ar gyfer rôl Cadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru | Mawrth 2026 |